QWCC1-038_18C

At: Swyddogion cyfrifol pob corff dyfarnu cydnabyddedig

02 Mai 2018

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a rhannu gwybodaeth â Cymwysterau Cymru

Daw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym ar 25 Mai 2018 a bydd yn gymwys i bob sefydliad, gan gynnwys rheoleiddwyr a chyrff dyfarnu. Mae'r GDPR yn gwella deddfwriaeth preifatrwydd data presennol ac yn cysoni'r dull o ddiogelu data ledled aelod-wladwriaethau yr UE. Rydym wedi bod yn ystyried yr effaith y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ei chael ar ein gwaith ac yn nodi'r camau y mae angen i ni eu cymryd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio. Rydym yn disgwyl y byddwch chi hefyd wedi cymryd camau i nodi sut y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar eich gwaith ac wedi cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i roi sicrwydd eich bod yn barod i gydymffurfio.

Bydd Cymwysterau Cymru ond yn prosesu eich data personol pan fydd sail gyfreithiol dros wneud hynny o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data y DU. Ni fyddwn yn gofyn am wybodaeth gennych yn fwriadol na fyddai'n cydymffurfio â'r GDPR neu na fyddai'n achosi i chi fethu â chydymffurfio. Gallwch weld ein polisi preifatrwydd, gan gynnwys manylion ynglŷn â sut i gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data (DPO) yma. Rydym hefyd wedi cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd ar sut rydym yn defnyddio data dysgwyr. Efallai yr hoffech gyfeirio at hyn yn y wybodaeth a ddarperir gennych i ddysgwyr.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Er nad ydym yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth newydd gael effaith sylweddol ar y ffordd rydym yn gweithio gyda chi fel corff dyfarnu, mae rhai camau ymarferol a chanllawiau rydym am dynnu eich sylw atynt a ddylai helpu i sicrhau nad ydym yn achosi anawsterau diangen i'n gilydd yn anfwriadol wrth sicrhau cydymffurfiaeth.

Gwnewch yn siŵr nad ydych yn anfon unrhyw ddata personol (er enghraifft, enw ymgeisydd unigol neu Nod Adnabod Ymgeisydd Unigryw) atom oni fyddwn wedi gofyn amdanynt yn benodol. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys gwybodaeth rydych yn ei chyflwyno i ni mewn hysbysiadau am ddigwyddiadau, monitro tystiolaeth ac unrhyw gasgliadau data.

Os oes gennych unrhyw bryderon mewn perthynas â chais am ddata personol a wneir gennym, siaradwch â Swyddog Diogelu Data eich corff dyfarnu (os oes un gennych) yn y lle cyntaf. Os bydd gennych bryderon o hyd dylech gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data ni.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn rheoleiddio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data a gall roi cyngor a chanllawiau annibynnol a diduedd i chi. Gellir cysylltu â'r ICO dros y ffôn neu sgwrs ar-lein (sy'n ddefnyddiol yn darparu trawsgrifiad llawn o'r sgwrs) – y manylion cyswllt yw https://ico.org.uk/ a 0303 123 1113. Os byddwch yn rhoi gwybod i'r ICO am fynediad diawdurdod at ddata a allai arwain at effaith andwyol fel y diffinnir yn ein Hamodau Cydnabod Safonol, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn o dan Amod B3.

Yn gywir

Philip Blaker
Prif Swyddog Gweithredol